# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 18FED CHWEFROR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch a ni

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**IwanEdwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 10 Chwefror 2025)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (14)**

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Olaf Cai Larsen
(Sedd wag)
Beca Roberts
Sian Williams
Linda Ann Jones
Edgar Wyn Owen
Arwyn Herald Roberts
Ioan Thomas
John Pughe

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

**Llafur/Rhyddfrydol (1)**

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 o Dachwedd 2024 fel rhai cywir.

**5. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 9 - 12

Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad.

**6. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH O RESYMOLI CYFLWYNO GWYBODAETH I GYNGHORWYR** 13 - 17

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiath:

- am sylwadau ar y datblygiadau hyd yma
- I gefnogi'r egwyddor o neilltuo un diwrnod pendol y mis ar gyfer sesiynau hyfforddiant ac un diwrnod y mis ar gyfer cynnal y rhaglen.

**7. CALENDR PWYLLGORAU 2025/26** 18 - 20

Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26 i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**8. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR** 21 - 24

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**9. CYFUNDREFN RHYBUDDION O GYNNIG** 25 - 28

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y wybodaeth.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 12/11/2024

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Stephen Churchman, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ioan Thomas, Llio Elenid Owen, Beca Roberts, Sian Williams ac Anwen Jane Davies

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu) Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) ac Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Cai Larsen, Arwyn Herald Roberts, Linda Anne Jones ac Edgar Wyn Owen.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION**

   Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2024, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNYBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith gan amlygu prif bwyntiau yr adroddiad. Eglurwyd bod gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyfrifoldeb o osod cyflogau ar gyfer Cynghorwyr ar draws Cymru. Mae'r Panel yn cyhoeddi adroddiad drafft yn flynyddol ac yn rhoi cyfle i Gynghorau ymateb i'r adroddiad drafft a'i gynnwys. Nodwyd mai hwn fydd adroddiad olaf y Panel gan bod ei ddyletswyddau yn cael eu trosglwyddo i Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o Ebrill 2025 ymlaen. Eglurwyd ymhellach bod yr adroddiad yn rhoi sylw i'r prif newidiadau mae'r panel yn eu hargymell ar gyfer Ebrill 2025 ac ymlaen. Soniwyd hefyd bod yr adroddiad yn crybwyll y taliadau i'r aelodau cyfetholedig gan nodi fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu y drefn newydd ar gyfer hawlio taliadau fesul awr.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Cwestiynwyd a yw'r ffigyrau ar gyfer y cyflog cyfartalog wedi ei seilio ar gyflog cyfartalog dros y Deyrnas Unedig i gyd, Cymru yn unig, neu yr ardal yma. Ymhellach, gofynnwyd sut mae'r cyflog cyfartalog yn cael ei gyfrifo.
- Eglurwyd mai'r gyfradd ar gyfer Cymru yn unig sydd dan sylw y Panel ac eu bod yn defnyddio cyfradd penodol er mwyn cyfrifo'r cyflog cyfartalog. Nodwyd bod eglurhad yn yr adroddiad ar sut mae'r cyflog cyfartalog yn cael ei gyfrifo.

## 6. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad.**
**Cychwyn cyhoeddi manylion yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd ar y safle we o fis Ebrill 2025.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod gwaith wedi ei wneud yn ystod y misoedd diwethaf i godi ymwybyddiaeth am y saith hyfforddiant craidd. Gan gyfeirio at dabl 1 yn yr adroddiad, nodwyd bod niferoedd yr aelodau sydd wedi mynychu y saith teitl craidd heb gyrraedd 100%. Eglurwyd bod tabl 2 yn dangos y cynnydd yn niferoedd yr aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar draws y flwyddyn eleni ynghyd â throsolwg ar faint o gyrsiau sydd wedi eu rhedeg dros y flwyddyn.

Nodwyd bod y gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi derbyn ymholiadau gan Aelodau sydd yn lywodraethwyr yn gofyn os ydi'r hyfforddiant diogelu maent wedi ei gwblhau yn eu rôl fel llywodraethwyr yn ddigonol. Cadarnhawyd nad yw'r hyfforddiant hwn yn ddigonol gan nad yw'r cwrs y llywodraethwyr yn cyfarch oedolion bregus.

Esboniwyd na all y gwasanaeth barhau i gynnal cyrsiau hanner gwag yn ddiddiwedd er fod y maes yn flaenoriaeth. Nodwyd mai'r bwriad ydi i drefnu bod recordiau ar gael i aelodau sydd ddim wedi mynychu'r cyrsiau hyd yma ar y Mewnrwyd Aelodau fel bod yr aelodau yn medru eu gwylio yn eu hamser eu hunain. Soniwyd fod dashfwrdd byw ar gael i fonitro pwy sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. Nodwyd bod nifer o Gynghorau eraill yng Nghymru yn cyhoeddi ystadegau ynglŷn â nifer yr aelodau sydd wedi cwblhau hyfforddiant . Eglurwyd bod hyn ddim yn rhywbeth mae Cyngor

Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd ond fod sgwrs i'w gael am newid i'r cyfeiriad yma.

Cyfeiriwyd at y broses ymgynghori gyda'r aelodau dros y misoedd diwethaf mewn ffurf holiadur Anghenion a Datblygu. Bu'r holiadur ar agor am gyfnod o 6 wythnos dros yr Haf ac mae'r canlyniadau ar gael ac wedi eu hatodi yn yr adroddiad. Nododd y Swyddog Datblygu Aelodau eu bod wedi categoreiddio yr holiadur ac wedi gofyn wrth yr aelodau flaenoriaethu eu anghenion dysgu a datblygu.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Diolchodd aelod am y cymorth mae wedi ei gael ers colli ei olwg ond yn anffodus, eglurwyd ei fod yn cael trafferth gweld recordiadau yn glir. Gofynnwyd os yw'n bosib derbyn y wybodaeth ar bapur. Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu Aelodau ei bod am gysylltu efo'r aelod ymhellach i drafod y mater.
- Nodwyd fod anghysondeb rhwng rhaglen ddysgu a cofnod dysgu yr aelodau a gofynnwyd am esboniad. Ategodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu 7 hyfforddiant craidd ond bod hyn ddim yn dangos ar ei rhaglen ddysgu. Eglurwyd bod 'fy nghofnod dysgu' yn rhestru'r cyrsiau mae'r aelodau wedi mynychu a bod 'fy rhaglen ddysgu' yn cynnwys modiwlau e-ddysgu hefyd. Esboniwyd bod y modiwlau e-ddysgu yn rhai ychwanegol i'r hyfforddiant craidd.
- Cwestiynwyd faint o aelodau sydd wedi cwblhau'r saith hyfforddiant craidd. Atebwyd bod deg aelod wedi cwblhau'r saith hyfforddiant craidd.
- Mynegwyd barn nad oes gwrthwynebiad i gyhoeddi ystadegau ar yr aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd.
- Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol bod yr ystadegau hyfforddiant yn wybodaeth gyhoeddus mewn Cynghorau eraill a bod rhai awdurdodau yn mynd gam ymhellach a'n cynnwys gwybodaeth ar bob hyfforddiant sydd wedi ei gynnig i Aelodau. Mynegwyd barn ei fod yn ymarfer da ac yn fuddiol oherwydd bod y gwasanaeth wedi cychwyn cael ceisiadau ynglŷn a'r math yma o wybodaeth yn barod. Nodwyd mae'r bwriad yw i anelu i gychwyn cyhoeddi yr ystadegau yma ym mis Ebrill 2025.
- Cynigwyd bod yr ystadegau yn cael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2025 ymlaen a derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor.

## 7. GWYBODAETH I GYNGHORWYR

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu y datblygiadau sydd wedi digwydd wrth geisio rhesymoli gwybodaeth a'r rhaglen friffio ar gyfer Cynghorwyr. Tynnwyd sylw at ofidiau'r Cynghorwyr ac eu bod wedi nodi eu bod yn boddi yn sgil yr holl ofynion/cynigion am sesiynau briffio, hyfforddiant a gwybodaeth. Nodwyd bod ymgais wedi ei wneud i gymryd cam yn ôl ac ystyried sut i wella'r sefyllfa. Ymhellach, nodwyd bod ymgais i geisio rhesymoli'r ceisiadau ychwanegol sydd yn codi yn ystod y flwyddyn, ceisiadau nad oes posib eu rhagweld ar gychwyn y flwyddyn ond fod angen cynnal sesiynau briffio i'r aelodau. Esboniwyd mai'r bwriad yw i gael gwell trefn ar y sesiynau briffio a'u defnyddio pan mae yna faterion ar draws y Sir sydd yn gyffredin i bob Cynghorydd. Ymhellach, nodwyd bod angen gwneud gwell defnydd o'r Fforymau Ardal ac awgrymir eu defnyddio i gyflwyno gwybodaeth perthnasol i ardaloedd penodol, lle byddai'r sgwrs yn amrywio o ardal i ardal.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd rhwystredigaeth fod gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi gan y wasg am ardaloedd mae'r Cynghorwyr yn eu cynrychioli ond nad yw'r wybodaeth yn cael ei rannu gyda'r Cynghorwyr o flaen llaw. Gofynnwyd i unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei rannu efo'r wasg gael ei rannu gyda'r Cynghorwyr hefyd.
- Ategwyd a cytunwyd a'r sylw bod Cynghorwyr yn 'boddi' yn sgil yr holl ofynion am sesiynau hyfforddiant. Nodwyd eu bod yn derbyn llawer o e-byst ynglŷn a'r holl gyrsiau sy'n cael eu cynnal sy'n creu problem hidlo yr holl e-byst.

## 8. FFRAMWAITH HUNANWERTHUSO CEFNOGAETH I GYNGHORWYR CYMRU

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar y Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru. Esboniwyd bod y Fframwaith newydd yn adlewyrchu dull mwy blaengar o gynorthwyo a chefnogi Cynghorwyr. Adroddwyd bod y Fframwaith wedi ei rhannu i dair ffrwd gwaith gwahanol i wneud yn siŵr fod pob ffrwd gwaith a rôl yn cael ei gyfarch.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Medi gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn rhannu barn, sylwadau a syniadau am y darpariaeth Dysgu a Datblygu presennol. Nodwyd ei fod wedi bod yn gyfarfod defnyddiol iawn i swyddogion y gwasanaeth Democratiaeth a'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddeall pa broblemau mae Cynghorwyr yn gael o amgylch y ddarpariaeth Dysgu a Datblygu ac hefyd i atgoffa aelodau o'r wybodaeth sydd ar gael a sut i gyrraedd y wybodaeth yma.

Soniwyd bod cyfarfod arall wedi ei drefnu at y 3ydd o Ragfyr er mwyn trafod materion Democratiaeth a gobeithir adrodd ar sylwadau'r cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Nodwyd bod croeso i unrhyw aelod ymuno yn y cyfarfod os ydynt yn teimlo'n gryf neu efo barn i rannu ar yr elfen o gefnogaeth i Ddemocratiaeth.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd am yr adroddiad gan groesawu'r sylwadau a'r syniadau a nodwyd.
- Cyfeiriwyd at dudalen 7 ac 8 o'r atodiad i'r adroddiad gan nodi barn bod y deddfwriaeth o amgylch cyfleusterau ymchwil yn wahaniaethol. Soniwyd bod awdurdodau lleol yn cael penodi tri cymhorthydd gwleidyddol yn unig sydd yn rhoi'r grwpiau llai dan anfantais ac yn creu problemau. Ymhellach, credwyd bod y cynorthwywyr hyn yn ysgrifennu gohebiaeth ar ran aelodau sydd yn rhoi anfantais pellach i'r aelodau sydd ddim yn derbyn y cymorth yma. Cwestiynwyd a oes ddiffiniad o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Mewn ymateb, derbyniwyd y sylw ynghylch y cynorthwywyr gwleidyddol gan fod rhai grwpiau yn medru manteisio arnynt ac eraill ddim. Er hyn, crybwyllwyd fod cefnogaeth hefyd ar gael gan y tîm Dysgu a Datblygu a'r gwasanaeth Democratiaeth, ac fod hyn yn cyd-fynd a'i gilydd i ddod a'r darpariaeth ynghyd.
- Nodwyd ei fod yn benderfyniad i pob awdurdod lleol unigol i benderfynu pa ddefnydd maent yn ei wneud o'r fframwaith ac ei fod yn bwysig i osod ei gyd-destun yn gyntaf. Esboniwyd mai cymorth sydd yn y fframwaith i adnabod be mae Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr Gwynedd eisiau fel cefnogaeth a'r

cwestiynau y dylid eu gofyn wrth ystyried y fframwaith ac unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol.

- Eglurwyd nad oes diffiniad i'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ond bydd y camau nesaf yn ystyried hyn. Ymhellach, eglurwyd nad oes adnoddau ar gael i rhai grwpiau gan fod y Cyngor ynghlwm a'r canllawiau deddfwriaethol sy'n golygu fod grwpiau angen 10% o'r aelodaeth er mwyn gallu cael cymhorthydd grŵp.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 13:55

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 18 Chwefror 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad |

## 1. TROSOLWG

**1.1** Mae 7 maes craidd wedi ei adnabod i Aelodau. Y teitlau craidd yma yw'r teitlau isafswm y mae ar pob Aelod ei angen i allu gwneud eu gwaith yn effeithiol h.y. y rhai mwyaf allweddol. Maent yn ymwneud â meysydd statudol y mae pob Aelod angen bod yn ymwybodol ohonynt pan yn craffu neu yn gwneud penderfyniadau fel enghraifft. Gall godi risgiau llywodraethiant i'r Cyngor pan gaiff penderfyniadau eu gwneud heb ddealltwriaeth llawn o'r oblygiadau yn y meysydd hyn. Yn ddelfrydol dylai pob Aelod fod yn cwblhau rhain ym mlwyddyn gyntaf, neu yn sicr ail flwyddyn y calendr etholiadol, a byddai hynny wedyn yn eu caniatáu i weithredu gyda sicrwydd am weddill y tymor etholiadol a chaniatáu y rhaglen hyfforddi i symud ymlaen i byncian mwy dewisol neu ddatblygol tros weddill y calendr etholiadol.

**1.2** Yn dilyn gwaith i sicrhau bod pawb yn cwblhau'r teitlau craidd sy'n ofynnol i bob Aelod ei gyflawni fel isafswm, rydym wedi rhedeg amryw o sesiynau ers Mai 2022 a bellach wedi cyrraedd y drydedd flwyddyn etholiadol. Mae'r cyfnod yma sy'n weddill yn rhoi cyfle i ni gynnig ystod ehangach o deitlau hyfforddi all ganolbwyntio ar ddatblygiad personol ac arloesol.

Dyma ddiweddariad o lle ydym arni gyda'r teitlau craidd:

| **Teitl Craidd** | **Nifer wedi cwblhau** | **% wedi cwblhau** | **Nifer heb gwblhau** |
|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 51 | 74 | 18 |
| Cod Ymddygiad | 54 | 78 | 15 |
| Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol | 34 | 49 | 35 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 57 | 83 | 12 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 39 | 56 | 30 |
| Gwybodaeth am Bobl | 52 | 75 | 17 |
| Rhiantu Corfforaethol | 46 | 67 | 23 |

**1.3** Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd sydd wedi bod ar y niferoedd sydd wedi cwblhau'r teitlau craidd dros y flwyddyn ddiwethaf:

| **Teitl Craidd** | **Chwefror 2024** | **Tachwedd 2024** | **Chwefror 2025** | **Cynnydd (Chwefror 2024-2025)** |
|---|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 44 | 50 | 51 | + 7 |
| Cod Ymddygiad | 39 | 50 | 54 | + 15 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 14 | 27 | 34 | + 20 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 33 | 33 | 57 | + 24 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 27 | 39 | 39 | 0 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 45 | 51 | 52 | + 7 |
| Rhiantu Corfforaethol | 39 | 46 | 46 | + 7 |

**1.4** Mae cefnogi Aelodau i gwblhau cyrsiau craidd yn **flaenoriaeth**. Mewn ymdrech i hwyluso hyn, mae recordiadau o'r 7 Teitl Craidd bellach ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau. Y gobaith yw, drwy gael yr adnodd yma ar-lein, i fod yn gwneud pethau'n haws i Aelodau gael mynediad i gwblhau'r teitlau Craidd ar amser sy'n hwylus.

**1.5** Mae'r gwaith manwl o sefydlu systemau clir er mwyn cyhoeddi'r wybodaeth am ba hyfforddiant mae Aelodau wedi eu cwblhau yn parhau. Bwriedir cychwyn ar y drefn newydd o gyhoeddi niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd o fis Ebrill 2025 cyn symud ymlaen at gyhoeddi hyfforddiant arall a gwblhawyd gan Aelodau maes o law.

**1.6** Gwyddoch fod yr hyfforddiant VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol) yn un pwysig i'w gael fel Aelod. Mae sesiynau eisoes wedi rhedeg yn 2024 trwy Cymorth i Ferched Cymru ac mae'n fwriad rhedeg sesiwn pellach fis Ebrill eleni. Mae trafodaethau ar waith i'r pwnc hwn fod yn faes craidd i adlewyrchu y gofyn statudol, ac mae ambell i Gyngor cyfagos eisoes wedi dilyn y trywydd yma.

## 2. HOLIADUR ANGHENION DYSGU A DATBLYGU

**2.1** Byddwch yn ymwybodol o'r broses ymgynghori gyda chi fel Aelodau ddigwyddodd yn mis Medi 2024. Bu'r holiadur ar agor am gyfnod o 6 wythnos ac fe gafwyd ymatebion gan 24 o Aelodau. Mae'r ymatebion o'r holiadur yn ein cefnogi wrth ymateb i'r Fframwaith Hunan Asesu i Gynghorwyr gan roi darlun i ni o ddymuniadau a blaenoriaethau Aelodau o ran hyfforddiant.

**2.2** Yn dilyn casglu adborth o'r holiadur , mae gwaith wedi cael ei wneud ac yn cael ei wneud i ymateb i'r canfyddiadau ddaeth o'r holiadur.

**2.3** O’r holiadur, gwelwyd bod Aelodau wedi nodi’r angen am gefnogaeth gydag elfennau o ddefnyddio TG. Mae rhai Aelodau eisoes wedi cael sesiynau un-i-un gyda swyddog o’r Tîm Dysgu a Datblygu. Mae’r Bwletin Aelodau wedi anfon sawl neges yn gofyn i unrhyw Aelod sy’n dymuno cymorth TG, i gysylltu’n uniongyrchol â’r Tîm Dysgu a Datblygu.

**2.4** Cynhaliwyd dau sesiwn yn Ionawr 2025 ar y Fewnrwyd Aelodau, sesiynau ymarferol oedd y rhain i ymgyfarwyddo Aelodau trwy’r gwahanol dudalennau sydd ar y Fewnrwyd, gan eu tywys trwy’r llu o wybodaeth sydd ar gael i'w helpu gyda’u gwaith. Roedd y sesiynau yn gyfle hefyd i'r Aelodau fod yn bwydo unrhyw adborth/syniadau ar gyfer addasu/gwella’r Fewnrwyd ar gyfer y dyfodol.

**2.5** Ymhellach i’r gweithdai yma, mae cyrsiau a gweithdai eraill wedi eu hadnabod sy’n derbyn sylw yn y Rhaglen Hyfforddiant, megis Helpu Etholwyr gyda chymorth costau byw, Ymwybyddiaeth Sgamiau, hyfforddiant cyfryngau a chyflwyno, hyfforddiant craffu, sgiliau gwaith ac achos eiriolaeth i gefnogi gofynion Aelodau yn dilyn casglu adborth o’r holiadur.

**2.6** Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i barhau i ymateb i ganlyniadau’r holiadur o fewn y gwasanaeth Dysgu a Datblygu i sicrhau ein bod yn targedu anghenion a blaenoriaethau Aelodau yn unol â’r gofyn.

**3. RHAGLEN HYFFORDDIANT**

**3.1** Mae’r rhaglen hyfforddiant ddiweddaraf wedi ei gyflwyno i chi eisoes a bydd gwaith pellach yn digwydd dros y misoedd nesaf i’w phoblogi ymhellach yn unol â chanlyniadau yr holiadur a’r hyn mae’r Adrannau yn ddymuno ei gynnwys yn y rhaglen.

**3.2** Yn dilyn sgwrs am faterion democratiaeth ar y 15fed o Ionawr 2024, trafodwyd sut i gefnogi aelodau cabinet a gwnaethpwyd cais i flaenoriaethu tri hyfforddiant penodol dros y cyfnod nesaf sef:

- Penderfyniadau da a materion i Aelodau Cabinet fod yn ymwybodol ohonynt (ee Deddf Llesiant).
- Ystyriaethau i Aelodau Cabinet ynghylch ymdrin â gwybodaeth a diogelu data.
- Codi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau gyda Ffordd Gwynedd.

**4. MYNYCHU CYNADLEDDAU**

**4.1** Gall cyfleoedd eich cyrraedd i fynychu cynadleddau neu gyrsiau. Mae’n bosib i'r Cyngor gynorthwyo Aelodau gyda chostau mynychu Cynadleddau/Cyrsiau a gall nifer ohonynt gael eu hystyried fel ‘datblygiad’. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol

ohoni gydag adnoddau yn brin y dyddiau yma, mae angen i faes y gynhadledd neu'r cwrs fod yn berthnasol I'ch gwaith chi fel Aelod er mwyn i'r Cyngor gefnogi eich cais.

Caiff y mater yma ei dynnu i'ch sylw fel Pwyllgor gan fod ambell achos wedi codi yn ddiweddar ple ei bod yn amlwg nad yw pawb yn deall y drefn. Mae angen ystyried y dull mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth pob aelod o'r trefniadau i'w dilyn, a'r canllawiau ar y mater sydd ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau.

**Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau a chymeradwyo y camau a gynigir.**

**Oherwydd y gofyn statudol yn y maes VAWDASV (Trais yn erbyn menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol), gofynnir i'r Pwyllgor gefnogi'r argymhelliad i ychwanegu'r maes hwn fel teitl craidd ychwanegol.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 18 Chwefror 2025 |
| **Pwnc** | Diweddariad ar y gwaith o resymoli cyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth<br>• am sylwadau ar y datblygiadau hyd yma<br>• I gefnogi'r egwyddor o neilltuo un diwrnod penodol y mis ar gyfer sesiynau hyfforddiant ac un diwrnod y mis ar gyfer cynnal y rhaglen hyfforddiant. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Adroddwyd i gyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ar 11 Tachwedd 2024 fod y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wedi nodi'r canlynol fel blaenoriaeth ar gyfer 2024/25:

   "*Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor*."

2. Adroddwyd hefyd ar ein bwriad i geisio rhesymoli'r ceisiadau i gyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr sy'n ein cyrraedd. Nodwyd y bwriad i geisio gwneud gwell defnydd o'r rhaglen hyfforddiant, sesiynau briffio, fforymau ardal a'r bwletin gwybodaeth i Aelodau. Roedd hyn yn ymateb i sylwadau ynghylch gofynion uchel ar Gynghorwyr a nifer yn nodi eu bod yn 'boddi' yn sgil yr holl ofynion a chynigion.

3. Mae atodiad 1 yn nodi ar ffurf deiagram y trefniadau newydd a gafodd eu cymeradwyo gan y Pwylllgor ar 11/11.2024. Mae'r tabl isod yn esbonio'r trywydd posib ar gyfer eitemau:

   - SESIYNAU BRIFFIO –diweddariad ar bwnc gweithredol penodol sy'n berthnasol i'r holl aelodau/ materion traws sirol. Lle i ystyried rhesymoli'r niferoedd/dyddiadau ee 1 diwrnod y mis.

   - FFORYMAU ARDAL – Mae'r agenda ym mherchnogaeth yr aelodau etholedig yn gyfredol. Awgrymir defnyddio'r Fforymau Ardal i gyflwyno gwybodaeth/materion perthnasol i ardaloedd penodol, lle byddai'r sgwrs/trafodaeth yn amrywio o ardal i ardal

- RHAGLEN DYSGU A DATBLYGU AELODAU – Gwybodaeth i alluogi'r Cynghorwyr i gyflawni eu rôl. Ystyrir yr hyfforddiant 'craidd' yn allweddol ac felly nid yw'n ystyriaeth yma. Bydd ceisiadau am hyfforddiant 'ychwanegol' a 'datblygol' yn cael eu hystyried.

- MEWNRWYD AELODAU A BWLETIN AELODAU – mae angen gwneud gwell defnydd o'r adnodd a hybu ei ddefnydd ymysg aelodau. Mae lle i geisio ystyried creu nodyn gwybodaeth yn unig, heb yr angen am gynnal sesiwn briffio o gwbl.

- Gweithredu fel 'postman' ar gyfer materion hyfforddiant sy'n codi gan eraill ee Uned Ddata, WLGA hy gyrru'r wybodaeth ymlaen at y Cynghorwyr yn unig. Rydym yn ymwybodol fod nifer o gynigion yn cyrraedd Cynghorwyr yn uniongyrchol gan asiantaethau allanol, ac nid oes gennym fodd o reoli'r swmp ebyst hyn.

**Beth yw'r datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf?**

4. Trefniadau penodol – mae gwaith wedi digwydd yn fewnol i sefydlu trefniadau i gyflwyno ceisiadau ar gyfer cynnal sesiynau ac/neu gyflwyno gwybodaeth i Aelodau. Bellach mae pob cais i fod i'w anfon at un ebost mewnol ac yna mae tîm bychan yn cyfarfod yn fisol i adnabod y datrysiad gorau ar gyfer y ceisiadau hyn. Mae hyn yn gam mawr ymlaen o fod yn trefnu digwyddiadau ar sail ad hoc. Mae nifer o geisiadau wedi ein cyrraedd eisoes, ond rydym yn ymwybodol fod rhai digwyddiadau wedi llithro trwy'r rhwyd.

5. Rhaglen hyfforddiant - Mae gwaith yn mynd ymlaen ar resymoli'r rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau, y rhaglen hyfforddiant. Mae diffiniad clir ar gyfer
   - hyfforddiant craidd - disgwyliad i bob Cynghorydd gyflawni y 7 maes blaenoriaeth, ynghyd â hyfforddiant sy'n angenrheidiol i'w gyflawni cyn cael eistedd ar bwyllgorau penodol (ee Pwyllgor Cynllunio, pwyllgor trwyddedu ayyb),
   - 'hyfforddiant ychwanegol' – hyfforddiant tu allan i'r 7 maes craidd
   - 'hyfforddiant datblygiadol' – ar gyfer datblygiad personol Aelodau Etholedig

6. Adroddwyd yn flaenorol fod nifer o sesiynau wedi gorfod cael eu canslo yn sgil niferoedd isel yn mynychu, gan amlygu'r gwastraff adnoddau gan y swyddogion sy'n cynnal y sesiynau, y cyfieithwyr sy'n mynychu'r hyfforddiant a'r swyddog sy'n eu trefnu. Bellach, cynhaliwyd y sesiwn olaf ar gyfer y meysydd hyfforddiant craidd, gyda'r hyfforddiant ar gael ar recordiad ar lein i'r rhai sy'n parhau i fod heb eu cyflawni (mae adroddiad ar wahan yn ymhelaethu ar hyn). Yn ogystal, sefydlwyd yr egwyddor i

beidio cynnal hyfforddiant pan fo llai na 5 wedi cofrestru er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ein cyrsiau.

7. <u>Sesiynau Gwybodaeth</u> - Mae'r trefniadau newydd wedi esgor ar well trefn o ran cynnal sesiynau gwybodaeth. Sefydlwyd yr egwyddor i gynnal sesiynau o hyd at awr ar bynciau lle mae datblygiadau pwysig i'r holl Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt, ac sy'n berthnasol ar draws Gwynedd gyfan. Fel mae'n digwydd, mae wedi bod yn gyfnod prysur o ran materion yn codi, gyda nifer o sesiynau wedi eu trefnu (gweler y rhestr isod). Fodd bynnag, rydym wedi gwrthod rhai, neu eu cyfeirio at y Fforymau Ardal am sgwrs mwy synhwyrol, neu ofyn am nodyn briffio byr i'w gynnwys yn y bwletin gwybodaeth i'r Aelodau.

8. Rydym yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ac yn dysgu gwersi wrth i'r datblygiadau fynd yn eu blaen. Noder fodd bynnag, tra'n ceisio rhesymoli'r llwyth gwaith i Gynghorwyr ei fod wedi golygu anghenion ychwanegol i swyddogion yn sgil yr angen i recordio'r sesiynau, i adnabod 'Cadeirydd' i ambell sesiwn, a'r angen i drafod a symud dyddiadau gyda swyddogion wrth gynllunio'r rhaglen.

9. Mae'r tabl isod yn nodi'r sesiynau briffio sydd wedi eu cynnal ers mis Hydref 2024:

| PWNC | DYDDIAD |
|---|---|
| Eitemau i'w cadarnhau | 19/03/2025 |
| Sesiwn briffio – Strategaeth Ariannol | 28/01/2025 |
| Gweithdai i'r holl Aelodau – strategaeth Ariannol ac arbedion (dim recordiad o'r gweithdy) | 09 & 10/01/2025 |
| Premiwm Treth Cyngor – effaith y premiwm treth Cyngor ar ail gartrefi ac iddo gwag hirdymor yng Ngwynedd | 20/11/2024 |
| Uchelgais Gogledd Cymru – cyflwyniad i waith Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd | 13/11/2024 |
| Sefyllfa Ariannol a Phleidlais Sengl Drosglwyddiadwy | 16/10/2024 |

10. <u>Fforymau Ardal</u> – nodwyd hefyd y byddai rhai materion yn cael eu cyfierio i'r Fforymau Ardal er mwyn caniatau gwell trafoaeth ar faterion lleol yn y Fforymau Ardal. Roedd rhaglenni'r fforymau ar gyfer cylch

Chwefror/Mawrth eisoes yn eithaf llawn, fodd bynnag, mae'r Adran Priffyrdd am gyflwyno 'Rhaglen waith ail-wynebu Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd' i'r cyfarfodydd hyn.

11. Mae gwaith pellach i'w wneud o ran sicrhau gwell defnydd o'r Fforymau Ardal, ond bydd hyn yn cymryd amser i dreiddio i'r rhaglenni unigol.

12. Arall – mae rhai eitemau, a fyddai wedi cael eu cynnal o ystyried trefniadau ad-hoc y gorffenol wedi eu gwrthod. Bydd taflen wybodaeth yn cael ei chreu i'w gosod ar y mewnrwyd Aelodau, a thynir sylw at hyn yn y bwletin Aelodau.

**Beth yw'r camau nesaf?**

13. Byddwn yn parhau i weithredu i geisio rhesymoli'r hyn sy'n cael ei gyflwyno fel gwybodaeth i Aelodau, gan geisio taro'r balans o gyflwyno'r materion cywir, mewn modd amserol, ond heb roi gormod o wybodaeth ar yr un pryd.

14. Yn sgil y gwaith hyd yma, un o'r heriau sydd wedi eu hadnabod yw ein gallu i ymateb yn hyblyg pan fo materion pwysig yn codi yn aniswyl (boed fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant neu ar gyfer cyflwyno gwybodaeth). Mae adnabod 'dyddiad rhydd' pan nad oes pwyllgor neu gyfarfod arall eisoes wedi ei drefnu yn profi i fod yn her.


15. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi ystyried adnabod un dyddiad y mis ar gyfer cynnal sesiynau briffio (gallai olygu 2 sesiwn briffio ar yr un diwrnod) ac un diwrnod y mis ar gyfer cynnal y rhaglen hyfforddiant. Y bwriad yw nodi'r dyddiadau yma fel rhan o'r calendr pwyllgorau fel eu bod yn hysbys i bawb o flaen llaw. Noder fodd bynnag, nad oes gwarant fod y trefniant yma am lwyddo gan fod argaeledd swyddogion neu hyfforddwyr allanol i gyflwyno ar y dyddiadau hyn am fod yn her ar yr ochor arall.

**Argymhelliad**

16. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

- Am sylwadau ar y datblygiadau hyd yma
- I gefnogi'r egwyddor o neilltuo un diwrnod penodol y mis ar gyfer sesiynau hyfforddiant ac un diwrnod y mis ar gyfer cynnal y rhaglen hyfforddiant.

Atodiad 1



GWYBODAETH I GYNGHORWYR
WLGA
Cyfweliadau Datblyg-iad Personol i Gyn-ghorwyr
Cais o Craffu – gofyn am wybodaeth cyn craffu
Prif Weith-redwr
Penaethiaid Ad-ran – cais am briffio
Penaethiaid Adran – cais i gyflwyno hy-fforddiant
Data Cymru
Cais gan Gyn-ghorwyr
Ceisiadau Grwpiau Gwleidyddol
Gofynion Deddfwriæthol newydd yn golygu fod ang-en briffio
Ceisiadau Fforwm Ardal
Cais briffio gan eraill ee yr heddlu
Ateb yn ddibynnol ar natur y cais—i'w ystyried gan y "grŵp Ffiltro"
GWEITHREDU FEL POSTMAN YN UNIG
RHAGLEN HYFFORDDIANT —hyfforddiant ychwanegol, datblygol.
SESIWN BRIFFIO
(materion sy'n berthnasol i'r holl aelodau) neu
FFORWM ARDAL
(materion sy'n berthnas-ol i ardal benodol)
BWLETIN AELODAU /
MEWNRWYD AELODAU
Hyfforddiant Craidd a
hyfforddiant cyn eistedd ar bwyllgorau penodol
Allweddol bwysig felly'n eistedd ar wahân i'r drefn gwyb-odaeth mwy cyffredinol

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **18 Chwefror 2025** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2025/26** |
| **PWRPAS** | **Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26 i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu** |
| **AWDUR** | **Sioned Mai Jones**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth dros dro** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2025/26 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 6ed o Fawrth, 2025.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2025/26 yn wybyddus eto.

1.5 Yn ychwanegol eleni, rydym wedi nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i geisio trefnu'r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2025/26

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell i’r Cyngor Llawn fabwysiadu’r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26.

| 2025/26 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** | **pm** | **1*** | | **3** | | | **2** | | **4** | | | **5** | | **7*** |
| Cabinet | **pm** | **13** | **10** | **8** | | **16** | **14** | **11** | **16** | **20** | **10** | **10** | **21** | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi | **am / pm** | | **19** | | | | **16** | | **11** | | **12** | | **23** | |
| Pwyllgor Craffu - Cymunedau | **am / pm** | | **5** | | | **18** | | **6** | | **22** | | **19** | | |
| Pwyllgor Craffu - Gofal | **am / pm** | | **12** | | | **25** | | **20** | | **29** | | **26** | | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | **am** | **22** | | | | **11** | **9** | **13** | | **15** | **5** | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | **pm** | | **17** | | | | | **4** | | | **24** | | | |
| Pwyllgor Cynllunio | **pm** | **19** | **16** | **14** | | **8 / 29** | **20** | **17** | **8** | **12** | **2** | **2 /23** | **27** | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | **am** | | **30** | | | **22** | | | **1** | | | **9** | | |
| Pwyllgor Safonau | **am** | | **9** | | | | | **3** | | | **23** | | | |
| CYSAG | **pm** | | **24** | | | | | **18** | | | **3** | | | |
| Pwyllgor Iaith | **am** | | **23** | | | | **13** | | | | **9** | | **20** | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | **am** | | | **16** | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | **am / pm** | **16** | **13** | **11** | | **12** | **10** | **14** | **12** | **16** | **13** | **20** | **24** | |
| Pwyllgor Pensiynau | **pm** | | | **7** | | **15** | | **24**** | | **19** | | **16** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | **yr hwyr** | | | | | **30** | | | | | | **3** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | **yr hwyr** | | | | | | **7** | | | | | **10** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | **pm** | | | | | | **14** | | | | | **17** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | **pm** | | | | | | **21** | | | | | **24** | | |
| Hyfforddiant Aelodau | **am / pm** | **7** | **4** | **2** | | **17** | **8** | **5** | **3** | **7 / 28** | | **4** | **15** | |
| Sesiwn Briffio | **pm** | **14** | **18** | **16** | | **24** | **22** | **19** | **17** | **14** | **11** | **18** | **22** | |

*Cyfarfod Blynyddol.

**Pwyllgor Pensiynau (am) / Cyfarfod Blynyddol (pm)

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – prynhawn **am/pm** – trwy’r dydd

**Dyma’r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 18 Chwefror 2025 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Sioned Mai Jones,<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth (dros dro) |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**


1. Pwrpas y Tîm Democratiaeth yw darparu cefnogaeth lawn i Gynghorwyr, drwy gefnogi'r gyfundrefn bwyllgorau a bod ar gael i gynorthwyo Cynghorwyr y Sir. Er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd ag anghenion Cynghorwyr rydym yn holi barn yn gyson.

2. Rydym yn adrodd ar ein perfformiad i'r Aelod Cabinet fel rhan o drefniadau herio perfformiad yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol; ond credwn fod rôl i aelodau'r Pwyllgor hwn dderbyn diweddariad o berfformiad a chael cyfle i leisio barn ar waith y tîm.

3. Mae'r Tîm Democratiaeth yn awyddus i fod yn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu felly anfonwyd holiadur bodlonrwydd i'r Cynghorwyr ar ddechrau mis Rhagfyr, 2024. Roedd yr holiadur yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Democratiaeth o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

4. Holwyd y Cynghorwyr am eu bodlonrwydd gyda gwaith y Tîm Democratiaeth yn ogystal â thri chwestiwn pellach:
   - *Nodwch unrhyw sylwadau am eich bodlonrwydd efo'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Tîm Democratiaeth*
   - *Oes yna unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y Tîm Democratiaeth eu gwneud i'ch cefnogi ymhellach yn eich rôl?*
   - *Oes yna unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud?*

5. Derbyniwyd 36 o ymatebion, oedd yn gynnydd ar y 31 o ymatebion a dderbyniwyd llynedd, gydag amryw o sylwadau gan Gynghorwyr am eu barn am wasanaeth y Tîm Democratiaeth.




6. Nododd **97%** fod y gwasanaeth yn "dda iawn" neu'n "dda" gydag un yn nodi ei fod yn "dderbyniol". Nid oedd sylw pellach wedi ei ddarparu gan yr unigolyn oedd wedi nodi fod y gwasanaeth yn "dderbyniol". Mewn cymhariaeth, nododd **91%** fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda' y llynedd, gydag 1 wedi nodi ei fod yn 'dderbyniol' a 2 heb ateb y cwestiwn.

7. Roedd rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

*"Rydym yn ffodus fel cynghorwyr yng Ngwynedd gan fod y gwasanaeth gan y tîm democrataidd yn effeithlon a chyfeillgar iawn."*

*"Pob tro yn barod iawn i helpu gydag unrhyw ymholiad"*

*"Y tîm yn wych am ddarparu dogfennaeth pwyllgorau mewn da bryd"*

*"Criw clên, cyfeillgar i gyd"*

*"yr holl staff democratiaeth bob amser pen arall y ffôn ac yn ymateb i e-byst yn ddiymdroi. Trefniadau cyfarfodydd Zoom a Teams gan y tîm yn hynod effeithiol. Trefniadau TG a chyfieithu yn rhwydd hefyd. Diolch yn fawr eto lenni."*

8. Mewn ymateb i'r cwestiwn oedd yn holi os oedd yna unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi Cynghorwyr ymhellach yn eu rôl nododd y mwyafrif nad oedd angen unrhyw ddatblygiad na newidiadau. Derbyniwyd dymuniad i dderbyn copi papur o raglenni pob Pwyllgor ond yn anffodus mae hyn yn groes i'r penderfyniad i fynd yn ddi-bapur (heblaw am eithriadau). Roedd hyn yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn er mwyn gwireddu arbedion ariannol drwy leihau costau argraffu a phostio.

9. Cymerwn y cyfle i'ch atgoffa bod Cynghorwyr sydd â phroblemau golwg yn derbyn copïau papur o Raglenni Pwyllgorau neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wedi derbyn cais priodol ac wedi awdurdodi hynny.

10. Derbyniwyd diolch a chydnabyddiaeth am waith da staff y tîm wrth ddarparu cymorth i Gynghorwyr sydd â phroblemau efo eu golwg. Amlygwyd fod y tîm yn agored i helpu Cynghorwyr sydd efo unrhyw anghenion ac yn hyblyg wrth wneud addasiadau. Cynghorir unrhyw un sydd angen cymorth pellach i gysylltu efo'r tîm.

11. Ymhlith yr ymatebion nododd un Cynghorydd y "*byddai'n fanteisiol i gael rhestr o beth allwch chi wneud i'n helpu ni*". Ystyriwyd llunio poster neu ganllaw i ymateb i'r cais, fodd bynnag, mae'n anodd creu rhestr gyflawn o'r gwasanaeth rydym ni fel tîm a'r Cynorthwywyr Gwleidyddol yn ei gynnig. Awgrymir i unrhyw un gysylltu i gael sgwrs am y cymorth sydd ar gael. Byddwn yn anfon nodyn i'r Cynghorwyr yn cadarnhau enwau swyddogion y tîm Democratiaeth gan fod dipyn o newidiadau staffio wedi bod yn ddiweddar.

12. Derbyniwyd sylwadau gan Gynghorwyr yn datgan eu bod yn dymuno derbyn gwybodaeth cyn iddynt ddarllen amdano yn y papurau newydd. Atgoffir Cynghorwyr bod llawer iawn o wybodaeth fesul ardal yn cael ei rannu trwy'r bwletin gwybodaeth wythnosol ac ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Yn ogystal byddwn yn ceisio cyfarch y sylw yma dros y flwyddyn i ddod drwy ddatblygu'n trefniadau briffio gan geisio sicrhau bod dyddiad pob mis wedi ei bennu ar gyfer sesiynau briffio i Gynghorwyr. Bydd y dyddiadau yn cael eu nodi yn y Calendr Pwyllgorau 2025/26 fel bod y Cynghorwyr yn ymwybodol ohonynt. Yn ogystal byddwn yn rhannu'r sylw gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol er mwyn iddo rannu'r pryder efo'r Penaethiaid gan eu hatgoffa i geisio sicrhau bod Cynghorwyr, yn benodol aelodau lleol, yn cael eu diweddaru yn amserol pe byddai mater sy'n derbyn sylw gan y wasg yn eu ward.

13. Mynegwyd sylw ei bod yn cymryd amser i Gynghorwyr newydd ddod i ddeall y trefniadau, fodd bynnag bod y gwasanaeth yn un cefnogol iawn yng Nghyngor Gwynedd. Hoffem eich atgoffa bod y tîm ar gael i'ch cynorthwyo mewn unrhyw fodd, gan gydnabod ei bod yn cymryd amser i Gynghorwyr newydd setlo i'w rôl. Rydym hefyd yn ddiolchgar o'r arweiniad a'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu i Gynghorwyr newydd o fewn y grwpiau gwleidyddol, gyda Rheolwr y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn cynnal sgyrsiau rheolaidd efo'r Cynorthwywyr Gwleidyddol er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth briodol mewn lle.

14. Ni dderbyniwyd sylwadau negyddol nac awgrymiadau pellach.

15. Er hyn rydym yn cydnabod bod rôl Cynghorwyr yn un heriol a hoffwn atgoffa Cynghorwyr am y gefnogaeth sydd ar gael o fewn y Cyngor ar gyfer materion iechyd meddwl a lles. Mae llawer o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i'w weld ar y Fewnrwyd Aelodau, dan y deilsen "Edrych ar ôl dy hun."

16. Mae'r tîm Democratiaeth yn gweithio'n agos efo'r uned Dysgu a Datblygu ac wedi cynnal sesiynau ar y cyd ym mis Ionawr er mwyn hybu'r defnydd o'r Fewnrwyd Aelodau i Gynghorwyr ac i amlygu'r newidiadau diweddar

sydd wedi ei gwneud i'r safle. Mae'r gwaith yma yn datblygu'n barhaus gydag eich cefnogaeth.

17. Rydym hefyd yn ceisio lleihau'r gofyn ar Gynghorwyr drwy waith y grŵp ffiltro, gydag ymgais yma i reoli'r nifer o geisiadau hyfforddiant, sesiynau briffio neu wybodaeth sy'n cyrraedd y Cynghorwyr.

18. Yn ychwanegol i'r holiadur bodlonrwydd electroneg sy'n cael ei yrru at Gynghorwyr unwaith y flwyddyn, byddwn yn ceisio ail afael yn ein trefniadau i gynnal sgwrs un i un gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig a chael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i Gynghorwyr.

19. Tra'n adrodd uchod ar y sylwadau sydd wedi derbyn gennych chi fel Cynghorwyr, mae'n bwysig cofio fod y tîm yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd a chyrff allanol hefyd. Mae nifer o aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn pwyllgorau e.e. Pwyllgor Trwyddedu, a nifer yn gwrando ar y gweddarllediadau neu'n gofyn am fynediad i wrando ar ein pwyllgorau rhithiol. Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau'n ddiweddar yn diolch i aelodau'r tîm am yr arweiniad clir a'r paratoadau trylwyr er mwyn galluogi'r pwyllgorau i redeg yn effeithlon.

**Argymhelliad**

20. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**CYNGOR GWYNEDD**
**PWYLLGOR GWASANETHAU DEMOCRATAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod :** | **18 Chwefror 2025** |
| **Adroddiad** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro** |
| **Pennawd y Mater** | **Cyfundrefn Rhybuddion o Gynnig** |

**Cyflwyniad**

1. Amcan yr adroddiad yma ar gais y Pwyllgor yw rhoi crynodeb o drefniadau y Cyngor i ymdrin a Rhybuddion Gynnig ac yn benodol eu priodoldeb. Mae'n esbonio y cyd destun cyfreithiol perthnasol , y trefniadau sydd mewn lle a'r arweiniad sydd ar gael i aelodau.

**Swyddogaethau Cyngor Llawn a Cabinet.**

2. Mae'r drefn llywodraethu ar gyfer awdurdodau lleol unedol yng Nghymru yn seiliedig ar gyfundrefn gweithrediaeth yn deillio o Deddf Llywodraeth Leol 2000. Yn 2012 daeth y drefn yma yn fandadol i bob awdurdod unedol . Yn sylfaenol mae'n golygu fod fframwaith statudol ynglŷn a threfniadau penderfynu y Cyngor sydd yn priodoli swyddogaethau neilltuol I'r Cyngor Llawn ar yr un rhan a'r Weithrediaeth ar y llaw arall. Yn ganolog i hyn mae gan y Cyngor Llawn y cyfrifoldeb am osod y Gyllideb ond hefyd y Fframwaith Bolisi ar gyfer y Cyngor. Fframwaith sydd yn gosod y ffiniau ar gyfer gwaith y Cabinet. Mae'r drefn hefyd yn gosod taith i fabwysiadu a newid polisi sydd, gyda ambell eithriad yn seiliedig ar rhoi'r cyfrifoldeb a'r hawl am argymell y Fframwaith Bolisi yn nwylo'r Cabinet. Mae hyn yn ganolog i'r arweiniad ynglŷn a rhybuddion o gynnig.

3. Yn gyfredol cynhwysir y canlynol yn y Fframwaith Bolisi:

- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
- Cynllun Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Datblygu Economaidd
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Iaith – a Polisi Iaith
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Tai
- Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc

- Polisi Tal
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.
- Polisi Indemniadau
- Polisi Gamblo
- Polisi Trwyddedu

**4.** Hanfod yr uchod o safbwynt y Cyngor Llawn a Rhybuddion o gynnig yw pedwar gosodiad :

- Mae gan y Cyngor bwerau penderfynu arwyddocaol
- Nid yw penderfyniad dan rybudd o gynnig a statws gwahanol i unrhyw benderfyniad arall ble mae cyfrifoldebau y Cyngor dan sylw.
- Mae gofynion eang ynglŷn a chymryd penderfyniadau Cyngor yn yr un modd ac unrhyw benderfyniad arall. Materion megis asesiadau ardrawiad, oblygiadau ariannol, ymgynghori a.y.b.
- Gosodir gofynion ynglŷn a'r sut y gellir dod a materion gerbron y Cyngor ar gyfer penderfyniadau .

**Swyddog Monitro**

5. Fel Swyddog Monitro mae gennyf swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol dros weithgareddau'r y Cyngor. O dan adran 5 o'r Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae gennyf ddyletswydd statudol i ymyrryd os wyf o'r farn fod cynnig, penderfyniad neu ddiffyg gweithredu gan yr awdurdod, ei swyddogion pwyllgorau, Cabinet a.y.b wedi tramgwyddo neu yn debygol o dramgwyddo y gyfraith neu yn golygu camweinyddu. Yn yr eithaf mae rhaid i mi adrodd yn ffurfiol unai i'r Cyngor neu'r Cabinet os nad yw'r sefyllfa yn cael ei datrys.

6. Yn unol a hyn mae gennyf hefyd gyfrifoldebau penodol o dan y Cyfansoddiad sydd yn berthnasol sef cynghori ar briodoldeb rhybuddion o gynnig wrth gwrs ond hefyd mae'r cyfrifoldeb arnaf i ddehongli a chymhwyso y Cyfansoddiad.

**Cyfansoddiad**

7. Gellir cyflwyno rhybudd o gynnig **"**ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sy'n effeithio ar les ardal weinyddol y Cyngor" Gosodwyd y drefn isod gan y Cyngor Llawn er darparu sustem oedd yn eglur ynglŷn ac ymdriniaeth Rhybuddion o Gynnig.

"4.19.4 <u>Priodoldeb</u>

(i) Pe rhoddir rhybudd o gynnig sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn anghyfreithlon, allan o drefn, neu yn amhriodol bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn syth ac ni osodir y cynnig ar y rhaglen heb eu caniatâd, Pe gwneir hyn hysbysir yr aelod a gyflwynodd y rhybudd gan y Swyddog Monitro o'r penderfyniad. Petai modd diwygio'r cynnig er ei wneud yn briodol yna cynghorir yr aelod a'i gyflwynodd o hyn a chaiff gyfle i addasu'r rhybudd o gynnig.

(ii) Er gwaethaf (i) osodir rhybuddion o gynnig ar y rhaglen a fyddai o'u mabwysiadu ym marn y Swyddog Monitro yn golygu penderfyniad anghyfreithlon neu arwain at gamweinyddu fel y'i diffinnir yn Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. "

**Canlyniadau**

8. Yn unol â'r Cyfansoddiad a lle cyfyd angen, byddaf yn gweithio gydag unrhyw aelod i geisio geiriad sy'n dod â'r cynnig o fewn ffiniau priodoldeb. Rwyf wedi darparu canllawiau (Atodiad 1 )i gynorthwyo gyda'r weithdrefn hon. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r mater yn cael ei ddatrys y pwynt yma. Lle nad yw hynny'n bosibl, cefnogir y penderfyniad gyda rheymeg bob tro. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r Cyfansoddiad. Serch hynny, y bwriad yw cyflwyno hysbysiadau y gellir eu gosod gerbron y Cyngor y gellir eu mabwysiadu.

**Penderfyniad a Geisir**

**Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y wybodaeth**

**RHYBUDDION O GYNNIG – NODYN BRIFFIO**

**Beth ydi Rhybudd o Gynnig?**
Mae rhybudd o gynnig yn caniatáu i aelod roi mater ymlaen gerbron y Cyngor Llawn i gael penderfyniad arno

**Be fedrai gynnig?**
Gall rhybudd o gynnig geisio penderfyniad ynglŷn a mater mae'r Cyngor a chyfrifoldeb amdano. Yn ogystal gall fod ynglŷn a mater sydd yn effeithio ar les yr ardal neu'r trigolion ond ddim yn gyfrifoldeb y Cyngor ei hyn.

**Unrhyw benderfyniad felly?**
Mae mabwysiadu cynnig yn benderfyniad gan y Cyngor Llawn ac nid yw o hyd yn bosib gwneud hyn drwy rybudd. Mae'n agored i'r un heriau a'g unrhyw benderfyniad arall. Gall hyn fod oherwydd nad yw yn gyfreithiol bosib gwneud y penderfyniad. Weithiau mae hyn oherwydd ei fod yn fater sydd yn gyfrifoldeb Cabinet. Gall hefyd fod angen gwybodaeth fanwl neu ddilyn trefn statudol megis ymgynghori a chynnal asesiadau cydraddoldeb cyn dod i gasgliad neu safbwynt ar y cynnig.

**Ond rwyf am gael trafodaeth ar y pwnc.**
Yn hytrach na phenderfynu mater yn y fan a'r lle mae modd weithiau ffarmio cynnig mewn ffordd sydd yn caniatáu trafodaeth. Er enghraifft cynnig i ofyn i Bwyllgor Craffu roi sylw i bwnc penodol ac ystyried sut ddylid ymateb i'r hyn dan sylw. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r materion a amlygir uchod gael eu deall a'u cloriannu. Ond, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r hyn sydd eisoes gerbron Pwyllgor Craffu all fod yn cyfarch y pwnc.

**Cwestiynau?**
Mae gennych hawl i gyflwyno cwestiwn i'w ofyn yn y Cyngor Llawn ac mae'n bosib fod hyn yn cynnig ffordd ymlaen. Weithiau mae hyn yn gyfrwng i gyfarch neu osgoi problem gyda geiriad neu amcan cynnig. Hefyd os ydych yn ceisio eglurhad neu esboniad mae'n well cyfrwng.

**Beth am eirio y rhybudd?**
Mae'r ffurflen yn gofyn i chi roi esboniad o'r cefndir a rhesymau am y cynnig. Wrth greu y geiriad penderfyniad a geisir mae angen ceisio bod yn glir ynglŷn a be fydd y Cyngor yn ei benderfynu e.e:

- Gofynnaf i'r Cyngor Llawn gefnogi
- Gofynnaf i'r Cyngor Llawn ofyn i ??? anfon at y Gweinidog i ????
- Fod y Cyngor yn mabwysiadu ??
- Fod y Cyngor yn datgan /penderfynu ???
- Fod y Pwyllgor Craffu ABC yn ystyried y modd priodol o ymateb i ?

**Lle fedrai dderbyn cyngor?**
Gallwch gysylltu a'r Swyddog Monitro os ydych am gael arweiniad. Er na all awgrymu testun na chyfeiriad ar gyfer y rhybudd gall gynorthwyo drwy roi cyngor cychwynnol ar ei briodoldeb ac os yn bosib ar sut i arall eirio i'w gael o fewn trefn.

**Pwy sydd yn gwirio cynigion?**
Gan y Swyddog Monitro mae cyfrifoldeb am ddyfarnu priodoldeb rhybuddion o gynnig . Os oes cwestiwn ynglŷn a priodoldeb cysylltir a chi i drafod y sefyllfa. Ond os na ellir datrys y sefyllfa yna gwneir penderfyniad ar gynnwys y rhybudd yn y rhaglen gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fydd yn derfynol.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**